



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Arwydd o fusnes da A sign of good business

comisiynyddygyymraeg.cymru
welshlanguagecommissioner.wales



**TALWCH YMA
PAY HERE**



Cyflwyniad / Introduction	3
Cefndir / Background	8
Y dirwedd ieithyddol / The linguistic landscape	15
Dylunio a chreu arwyddion dwyieithog: yr egwyddorion / Designing and creating bilingual signs: the principles	19
Bod yn greadigol a pherchnogi dwyieithrwydd: astudiaethau achos / Being creative and owning bilingualism: case studies	32
Rhoi popeth mewn lle / Putting everything in place	37
Ble i gael cymorth / Where to get more help	46

Cyflwyniad

Introduction



Bwyd poeth Hot food

Ffrwythau a llysiau
Fruit & vegetables



Beth yw'r ddogfen hon?

Canllaw hwylus ar sut i greu arwyddion dwyieithog i'ch busnes. Mae'n cynnwys cyngor ar osodiad, sut i osgoi camgymeriadau, ac enghreifftiau go iawn gan fusnesau sy'n gweithio yng Nghymru.



What is this document?

A handy guide on how to create bilingual signs for your business. It includes advice on layout, how to avoid mistakes, and real examples from businesses working in Wales.



Pam mae angen arwyddion dwyieithog?

Mae'r Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru. Mae'n rhan o fywyd bob dydd i gannoedd o filoedd o bobl. Dylai eich busnes chi wneud yn siŵr eich bod chi'n rhan o'r darlun hwnnw; yn rhan o'r Gymru ddwyieithog.

Pam mae Comisiynydd y Gymraeg wedi creu'r ddogfen?

Rôl Comisiynydd y Gymraeg yw hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg ar draws Cymru. Er mwyn gwneud hyn yn effeithiol, mae'n rhaid i'r sector preifat fod yn rhan o'r darlun. Trwy weithio gyda Thîm Hybu'r Comisiynydd, gall eich busnes chi wneud yn siŵr eich bod chi'n defnyddio'r Gymraeg mewn ffordd effeithiol.

Why do we need bilingual signs?

Welsh is an official language in Wales. It's a part of everyday life for hundreds of thousands of people. Your business should make sure that it's part of that picture; a part of a bilingual Wales.

Why has the Welsh Language Commissioner created this document?

The role of the Welsh Language Commissioner is to promote the use of Welsh across Wales. For this to happen effectively, the private sector must be part of the picture. By working with the Commissioner's Hybu Team, your business can ensure it uses Welsh in a meaningful way.



Ar gyfer pwy mae'r ddogfen?

Mae'r canllaw hwn yn cynnwys gwybodaeth am sut i greu arwyddion dwyieithog clir felly mae'n berthnasol i unrhyw un o fewn y sector preifat neu'r trydydd sector sydd angen yr wybodaeth honno. Os ydych chi'n gweithio yn y sector preifat, yn rhan o brynu neu logi safleoedd ar gyfer mân-werthwyr, yn rheoli safleoedd i fusnesau, canolfannau siopa neu barciau mân-werthu, bydd y ddogfen hon o ddefnydd i chi.

Os ydych chi'n gweithio ym maes cynllunio, neu'n gynghorydd sy'n rhan o'r broses gynllunio, bydd y ddogfen hon yn ddefnyddiol i'w rhannu gyda'r rhai sy'n gwneud ceisiadau er mwyn annog cywirdeb.

Nid yw'r ddogfen hon yn addas ar eich cyfer os ydych yn ymwneud â sefydliad sy'n cydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r Gymraeg.

Who is this document for?

The document includes information on how to create clear bilingual signs so it's relevant to anyone within the private or third sector who needs that information. If you work in the private sector, are involved in purchasing or leasing sites for retailers, manage business sites, shopping centres or retail parks, this document will be useful to you.

If you work in planning, or are a councillor with planning responsibilities, the document will be useful to share with applicants to encourage accuracy.

This document is not suitable for you if you work for an organisation that is required to comply with standards relating to the Welsh language.



Ydy'r wybodaeth yn y ddogfen hon yn berthnasol i'r trydydd sector?

Ydy, mae'r un egwyddorion o ran arwyddion dwyieithog yn berthnasol i'r trydydd sector. Mae rhagor o gymorth ar gael gan y Tîm Hybu i'r trydydd sector os ydych chi'n dymuno defnyddio'r Gymraeg.

Is the information in this document relevant to the third sector?

Yes, the same principles on bilingual signage apply to the third sector. There is more support available from the Hybu team for the third sector if you would like to develop your use of Welsh.



Cefndir

Background



Bwydydd y Byd
World Foods

Popty Bakery



Cefndir

Wrth deithio ar draws Cymru, fe welwch y Gymraeg ym mhob man: ar yr arwyddion ffyrdd, ar hysbysebion, mewn siopau, ac ar gerbydau. Mae'r Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru ac mae pobl ar draws y wlad yn gweld a chydabod gwerth a phwysigrwydd y Gymraeg; mae'n rhan annatod o'r tirlun gweledol. Rhoddodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 statws swyddogol i'r iaith ac mae gan Lywodraeth Cymru darged i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'r Gymraeg yn rhan o fywyd bob dydd yng Nghymru.

Background

Travelling around Wales, you will see the Welsh language everywhere: on road signs, advertising, shops, and on vehicles. Welsh is an official language in Wales and people across the country see and recognise the value and importance of the language; it's an innate part of the visual landscape. The Welsh Language (Wales) Measure 2011 gave official status to the Welsh language and the Welsh government has a target to reach a million Welsh speakers by 2050. The Welsh language is a part of everyday life in Wales.



Wrth gerdded ar hyd strydoedd ein trefi a'n dinasoedd, mae pobl Cymru yn disgwyl gweld y Gymraeg. Mae'r cyhoedd yn hoffi gweld busnesau yn defnyddio'r Gymraeg, gyda 68% o'r rhai a holwyd yn dweud eu bod nhw'n hoffi gweld archfarchnadoedd yn defnyddio'r Gymraeg, a 74% yn teimlo bod archfarchnad sy'n defnyddio'r Gymraeg yn cefnogi'r gymuned leol¹. Mae'r sector preifat (a'r trydydd sector) yn gwybod bod ganddynt rôl i'w chwarae yn yr ymgais i gynyddu defnydd o'r Gymraeg; os nad yw'r arwyddion yn ddwyieithog, mae hynny'n sefyll allan.



People expect to see Welsh when they walk around our towns and cities. The public like seeing businesses using Welsh, with 68% of those asked saying they liked seeing supermarkets use Welsh, and 74% saying they felt that using Welsh showed that a supermarket was supporting the local community¹. The private sector (and the third sector) know they have a role to play in the attempt to increase the amount of Welsh; if signs aren't bilingual, that sticks out.



¹ [archfarchnadoedd-supermarkets.pdf](#)
([comisiynyddygydraeg.cymru](#))





Deddfwriaeth a rheoliadau perthnasol

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Dyma'r brif ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i'r Gymraeg yng Nghymru. Mae'r Mesur yn gosod gofynion statudol ar amrediad o sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru i ddefnyddio'r Gymraeg. Rôl Comisiynydd y Gymraeg yw hyrwyddo defnydd o'r iaith er mwyn creu gwlad ble mae modd byw bywyd bob dydd trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn golygu gweithio gyda busnesau i'w hybu i ddefnyddio'r Gymraeg.

Cymraeg 2050

Uchelgais Llywodraeth Cymru yw gweld miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'r polisi yn berthnasol i holl waith y Llywodraeth, ac mae busnesau'n cael eu hannog i chwarae rôl yn yr ymgyrch. Mae arwyddion dwyieithog yn sicrhau bod y Gymraeg yn weledol ar draws Cymru, ac maent yn helpu i normaleiddio defnyddio'r iaith.

Legislation and relevant regulations

Welsh Language (Wales) Measure 2011

This is the principal legislation relevant to the Welsh language in Wales. The Measure places statutory requirements on a range of public organisations in Wales to use Welsh. The Welsh Language Commissioner's role is to promote the use of Welsh, to create a country where it's possible to live all aspects of life through the medium of Welsh. This means working with businesses to encourage them to use Welsh.

Cymraeg 2050

The Welsh Government has a vision of reaching a million Welsh speakers by 2050. The policy cuts across all aspects of Government policy and businesses are encouraged to be part of the campaign. Bilingual signs ensure that Welsh is visible across Wales, and help to normalise the use of the language.



Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Dyma ddeddfwriaeth unigryw i Gymru sy'n gosod cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol i ystyried effaith hirdymor eu penderfyniadau a'u polisiau. Un o nodau llesiant y ddeddf yw bod:

Cymru â diwylliant bywiog ble mae'r Gymraeg yn ffynnu

Er mwyn i'r Gymraeg ffynnu, mae'n rhaid iddi fyw ym mhob man yn ein cymdeithas. Ac mae modd i gyflogwyr yn y sector preifat chwarae eu rhan wrth greu gweithleoedd sy'n parchu a gwerthfawrogi'r Gymraeg er mwyn hybu ac annog siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r iaith.

Wellbeing of Future Generations Act (Wales) 2015

This is a piece of legislation unique to Wales that places a responsibility on local authorities to consider the long-term effects of their policy decisions. One of the themes of the act is:

A Wales of vibrant culture and thriving Welsh language

For the Welsh language to thrive, it must live in all parts of society. Beyond that, private sector employees can play a role in creating workplaces that respect and appreciate the Welsh language, to encourage Welsh speakers to use the language.



Cynlluniau Datblygu Lleol a TAN 20

Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol asesu effaith polisiau eu Cynlluniau Datblygu Lleol ar y Gymraeg. Mae Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20: Cynllunio a'r Gymraeg yn rhoi cyngor ar hyn.

1.4.3 Dylai'r CDLI ganolbwyntio ar faterion ac amcanion lleol, gan wneud hynny yn unol â strategaethau lleol a sylfaen o dystiolaeth. Un o'r pynciau y bydd gofyn ei ystyried wrth baratoi CDLI yw sut y bydd y strategaeth a'r polisiau'n debygol o effeithio ar y defnydd o'r Gymraeg a chynaliadwyedd cymunedau.²

Mae nodyn technegol TAN 20 yn rhoi arweiniad ynghylch sut i roi ystyriaeth briodol i'r Gymraeg trwy'r system gynllunio. Ynddo, mae cyfeiriad at bwysigrwydd a rôl arwyddion yng nghymeriad gweledol ardal, ac mae'n nodi eu bod yn ffordd o hybu diwylliant unigryw Cymru.

Local Development Plans and TAN 20

The Planning (Wales) Act 2015 requires that local authorities assess the effect of the policies within their Local Development Plans on the Welsh language. The Technical Advice Notice (TAN) 20: Planning and the Welsh language advises on this subject.

1.4.3 LDPs should be focused on local issues and objectives, informed by local strategies and an evidence base. One of the issues requiring consideration when preparing a LDP is how the strategy and policies are likely to impact on use of the Welsh language and the sustainability of communities.²

TAN 20 provides guidance on how to give due consideration to the Welsh language within the planning system. It notes the importance and role of signage on the visual character of an area, noting that they are a means of promoting Wales' unique culture.

² [TAN20: Planning and the Welsh Language \(gov.wales\)](https://gov.wales/tan20)

Polisi Cynllunio Cymru (2018)

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi y dylai'r system gynllunio gyfrannu at alluogi pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac at y nod llesiant o weld y Gymraeg yn ffynnu.

Wales Planning Policy (2018)

The Wales Planning Policy notes that the planning system should contribute to the use of Welsh and the wellbeing aim of a thriving Welsh language.



Y dirwedd ieithyddol

The linguistic landscape

Gwin a Chwrw
Wine and Beer

Pethau Melys
Confectionery



Y dirwedd ieithyddol

Mae amryw o bolisiâu a deddfwriaeth yn sicrhau statws y Gymraeg yng Nghymru, ac yn ein bywydau bob dydd gwelwn yr iaith ym mhob man. Mae gweld y Gymraeg ar adeiladau, ar arwyddion, ar hysbysebion a hyd yn oed ar gerbydau yn rhoi i ni ein tirwedd ieithyddol. Mae'n cynrychioli diwylliant ac yn adlewyrchu dyhead ehangach i weld y Gymraeg yn ffynnu.

The linguistic landscape

A range of policy measures and legislation ensure the status of the Welsh language in Wales and in our daily lives, we see the Welsh language everywhere. Seeing Welsh on buildings, signs, advertising and even on vehicles gives us our linguistic landscape. It represents the culture, and reflects a wider desire to see the Welsh language thrive.





Mae gan y sector preifat rôl i'w chwarae yn hyn. Mae nifer o gwmnïau yn defnyddio'r Gymraeg yn barod wrth weithredu yng Nghymru. Ond mae diffyg cysondeb ac aneglurder yn golygu nad yw hyn yn digwydd ar draws Cymru. Dyma pam ein bod wedi creu'r ddogfen hon, er mwyn rhoi arweiniad ac i osgoi amwysedd, er mwyn i fusnesau ac eraill sydd ar ein stryd fawr chwarae rhan yn cynyddu faint o Gymraeg sy'n weladwy yn ein cymunedau.

The private sector has a role to play in this. Already many companies use Welsh when working in Wales. But, a lack of consistency and clarity means that this doesn't happen across the whole of Wales. That is why we have created this document, to provide guidance and avoid uncertainty, so that businesses and others on our high street can play a role in increasing how much Welsh is visible in our communities.

The language of public road signs, advertising billboards, street names, place names, commercial shop signs, and public signs on government buildings combines to form the linguistic landscape of a given territory, region, or urban agglomeration. The linguistic landscape of a territory can serve two basic functions: an informational function and a symbolic function. (Landry & Bourhis, 1997: 25)³

The language of public road signs, advertising billboards, street names, place names, commercial shop signs, and public signs on government buildings combines to form the linguistic landscape of a given territory, region, or urban agglomeration. The linguistic landscape of a territory can serve two basic functions: an informational function and a symbolic function. (Landry & Bourhis, 1997: 25)³

³ Landry and Bourhis 1997, Journal of Language and Social Psychology, Linguistic Landscape and Ethnolinguistic Vitality: An Empirical Study



Caiff hyn ei atgyfnerthu gan ganllawiau awdurdodau lleol unigol sy'n awyddus i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg ar arwyddion er mwyn cyfrannu at ddelwedd ac ymdeimlad dwyieithog eu trefi a'u dinasoedd. Mae Cyngor Caerdydd, er enghraifft, yn nodi:

Mae arwyddion Cymraeg a dwyieithog yn gwella cymeriad Caerdydd ac yn hyrwyddo'r ddinas a'i diwylliant. Mae defnyddio'r Gymraeg a'i chynnwys ar arwyddion blaen siop yn gallu helpu i hyrwyddo busnesau / denu cwsmeriaid ac fe gaiff ei annog yn weithredol a'i gefnogi yn rhan o gynigion blaen siop â dyluniad da.⁴

Mae hybu'r Gymraeg yn gyfrifoldeb ar awdurdodau lleol, ac fe sylwch fod nifer yn cynnwys cyfeiriadau at y Gymraeg sy'n debyg i'r datganiad uchod.

This is reinforced by guidelines from individual local authorities keen to promote the use of Welsh on signs, to contribute to the bilingual image and feeling in their towns and cities. Cardiff Council, for example, notes:

Welsh language and bilingual signage enhances the character of Cardiff and promotes the city and its culture. Its use and incorporation into shopfront signage can help to promote businesses / attract customers and will be actively encouraged and supported as part of well-designed shopfront proposals.⁴

Local authorities have a responsibility to promote the Welsh language, and you'll notice that many have similar statements in their guidance documents.

⁴ [Microsoft Word - CCA Dyluniad ac Arwyddion Blaen Siop - Mehefin 2019 \(cardiff.gov.uk\)](#)

**Dylunio a chreu
arwyddion
dwyieithog**

**Designing
and creating
bilingual signs**

Cig Meat

Bwyd Anifeiliaid Anwes
Pet Food



Dylunio a chreu arwyddion dwyieithog: yr egwyddorion

I greu arwydd dwyieithog effeithiol, dilynwch yr egwyddorion sylfaenol isod. Maen nhw'n helpu i sicrhau cysondeb ac eglurder i'ch cwsmeriaid. Dyma'r prif bethau i'w hystyried:

Designing and creating bilingual signs: the principles

Follow the basic principles set out below to create effective bilingual signs. They help ensure consistency and clarity for your customers. Here are the main things to consider:



Gosodiad

Dylai'r Gymraeg fod uwchben neu ar y chwith wrth edrych ar yr arwydd.

Bydd hyn yn golygu fod y Gymraeg yn cael ei darllen yn gyntaf gan siaradwyr Cymraeg. Bydd y cysondeb hwn hefyd yn golygu bod yr arwyddion yn hawdd i'w deall i bawb. Mae'n arferol gosod yr iaith leiafrifol uwchben neu i'r chwith ar arwyddion ar draws y byd.

Placement

Welsh should be above or to the left when looking at the sign.

This will mean that the Welsh will be read first by Welsh speakers. This consistency will also mean that the signs are easier to read for everyone. Placing the minority language above or on the left is commonplace around the world.



Bwyd poeth **Hot food**

Ffrwythau a llysiau
Fruit & vegetables

Maint: Sicrhewch fod y testun Cymraeg o leiaf yr un maint â'r testun Saesneg.

Acenion: Gwnewch yn siŵr eich bod yn dewis ffont sy'n gallu ymdopi â llythrennau diacritig yr iaith Gymraeg; un sy'n gallu gosod 'to bach' ac acenion ar ben llythrennau.

Size: ensure that the Welsh text is at least as big as the English text.

Accents: ensure that you choose a font that can display the diacritic letters of the Welsh language: one that can place accents such as the 'to bach' ^ on letters.



Yma i helpu yn Llandeilo
Here to help in Llandeilo

Bwyd Rhyngwladol
International Food

Diodydd Ysgafn
Soft Drinks

Hufen Ia[^]
Ice Cream

Yr wyddor Gymraeg: Cofiwch fod gan yr wyddor Gymraeg llythrennau gwahanol i'r wyddor Saesneg. Mae llythrennau dwbl yn gyffredin: ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh a th. Dylech gofio hefyd fod y llythyren 'i' ar ei phen ei hun yn gyffredin yn y Gymraeg. Ni ddylai ymddangos fel 'l' oni bai ei bod ar ddechrau brawddeg a rhaid gwirio nad yw'n cael ei chamgymryd am y llythyren 'L'.

The Welsh alphabet: remember that the Welsh alphabet has different letters to the English one. Double letters are common: ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh and th. You should also remember that the lowercase letter 'i' appears often on its own in Welsh. It should not appear as 'l' unless as a capital letter, and you must ensure that it isn't mistaken for the letter 'L'.



**Yr Wyddor Gymraeg
The Welsh Alphabet**

**a b c ch d dd e f ff g
ng h i j l ll m n o p ph
r rh s t th u w y**

Gwahanu Testun

Dyma bwynt pwysig iawn. Mae'n rhaid i'r dull o wahanu'r ieithoedd fod yn hygyrch, heb effeithio ar gydraddoldeb. Dyma rai ffyrdd o wahanu'r ieithoedd:

Lliw: gallwch ddefnyddio lliwiau gwahanol i ddynodi'r ieithoedd gwahanol. Dylech gymryd gofal i ddewis lliwiau sy'n hygyrch, a pheidio â dewis un lliw sy'n sylweddol gryfach na'r llall.

Separating text

This is an important aspect of bilingual design. The method of separating the languages needs to be accessible, without affecting equality. Here are some ways of separating languages:

Colour: you can use different colours to denote the different languages. You should take care to choose accessible colours, and not to choose one colour that is substantially stronger than the other.



Diodydd Ysgafn
Soft Drinks

O'r Rhewgell
Frozen



Lliw cefndir: gallwch ddefnyddio'r un lliw ar gyfer y testun, gan osod y ddwy iaith ar liwiau cefndir gwahanol. Eto, mae'n bwysig dewis lliwiau sy'n gweddu ei gilydd ac sy'n hygyrch.

Gofod: mae defnyddio gofod yn ffordd syml ond effeithiol o wahanu dwy iaith. Gallech hefyd ystyried defnyddio graffeg neu linell syml er mwyn gwahanu'r ieithoedd.

* Dylech benderfynu ar un o'r ffyrdd uchod yn unig, yn hytrach na defnyddio cymysgedd ohonynt ar un arwydd neu set o arwyddion, er mwyn sicrhau cysondeb i'r darllynydd.

Background colour: you can use the same colour for the text, and place both languages on different background colours. Again, it's important to use colours that complement each other and that are accessible.

Space: using space is a simple yet effective way of separating two languages. You could also use a graphic or simple line to separate the languages.

* You should decide on one of the above methods, rather than use a mixture of them on one sign or set of signs, to ensure consistency for the reader.

Tymhorol

Seasonal

Bwyd Tun

Canned foods

Defnyddio delweddau ac eiconau


Mae defnyddio lluniau neu eiconau yn ffordd hwylus o gyfleu neges heb ddefnyddio iaith, neu i ddefnyddio llai o eiriau ar arwydd. Dyma rai pwyntiau i'w hystyried os ydych chi'n bwriadu gwneud hyn:

- Byddwch yn gyson o ran lleoliad yr eicon – mae gosod yr eicon yng nghanol y ddwy iaith yn aml yn effeithiol
- Peidiwch â dyblygu'r eicon neu ddelwedd; defnyddiwch un llun gyda'r ddwy iaith

Using images and icons

Using images and icons can be a straightforward way of conveying a message without using language, or to use fewer words on a sign. Here are some points to consider if you intend to do this.

- Be consistent in positioning the icon – placing in the middle of both languages is often effective
- Don't duplicate the icon or image; use the same image with both languages.



Pethau i'w hosgoi

Sut bynnag y dewiswch wahanu'r testun, cofiwch yr egwyddorion hyn er mwyn sicrhau cysondeb a phrofiad hwylus i'r cwsmer:

- a. Peidiwch â defnyddio testun trwm, neu italics i wahanu'r ieithoedd; bydd hyn yn sicr o ffafrio un iaith dros y llall

Things to avoid

However you decide to split the text, remember the following principles to ensure consistency and a good customer experience:

- a. Don't use bold, or italics to separate languages; this is sure to favour one language above another



Ffrwythau a llysiau

Fruit & Vegetables

Ffrwythau a llysiau

Fruit & Vegetables

Pethau i'w hosgoi

- b. Peidiwch â defnyddio blaen slaes neu heiffen i wahanu'r ieithoedd

Things to avoid

- b. Don't use a forward slash or hyphen to separate languages



Cig a Physgod / Meat & Fish

- c. Peidiwch â gwasgu un iaith i gyfateb â faint o le mae'r iaith arall yn ei gymryd

- c. Don't squeeze one language to correspond with how much space the other takes

Sudd Ffrwythau Fruit Juice

Pethau i'w hosgoi

- d. Peidiwch â rhannu gair dros ddwy linell yn defnyddio heiffen

Things to avoid

- d. Don't split words across two lines using a hyphen



**Bwydydd rhyng-
wladol**
International Food

- e. Peidiwch â defnyddio priflythrennau ar gyfer un iaith a llythrennau bach ar gyfer y llall, bydd hyn yn sicr o amlygu un iaith yn fwy na'r llall.

- e. Don't use capitals for one language and lower-case for the other as this will make one more prominent than the other.

Menyn
BUTTER

Arwyddion digidol

Dyma gyfle gwych i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae arwyddion digidol yn cynnig hyblygrwydd, a'r gallu i ddefnyddio gofod cymharol fach i arddangos gwybodaeth yn ddwyieithog. Os yw'n ddigidol, gallwch ei newid yn haws ac yn aml, heb lawer o gost nac ymdrech. Dyma opsiwn hwylus os ydych yn brin o le ar eich safle.

Dylai unrhyw arwyddion digidol lynu at yr un egwyddorion ag arwyddion arferol o ran dwyieithrwydd. Edrychwch hefyd ar ein Canllaw Dylunio Dwyieithog am enghreifftiau o hysbysebion, posterï a deunydd marchnata amrywiol dwyieithog.

Os ydych yn defnyddio sgriniau digidol ar gyfer arwyddion dwyieithog, peidiwch â rhannu'r ieithoedd i ddau arwydd gwahanol. Hynny yw, bod un fersiwn Gymraeg ac un fersiwn Saesneg yn ymddangos ar wahân. Yn hytrach, cyfunwch y ddwy iaith yn yr un arwydd yn yr un modd ag y byddech ar arwydd statig. Fel hyn, bydd pawb yn derbyn yr un wybodaeth ar yr un pryd, yn hytrach na'n gorfod aros rhai eiliadau i'r sgrin newid i'w dewis iaith.

Digital signs

This is a great opportunity to use Welsh. Digital signs offer flexibility and the ability to use a relatively small space to display bilingual information. Being digital, it can be changed easily and often, without too much cost or effort. This is a very good option if you are short of space on your sites.

Any digital sign should adhere to the same principles of bilingualism as standard signs. Take a look at our Bilingual Design Guide for examples of bilingual adverts, posters and marketing materials.

If you are using digital screens for bilingual signs, don't split the languages into two separate signs i.e. one Welsh version and one English version appearing separately. Instead, combine both languages on one sign in the same way you would on a static sign. This way, everyone will receive the information at the same time, rather than having to wait for the screen to change to their language of choice.





Beth mae Safonau'r Gymraeg yn ei ddweud am arwyddion?

Yn gryno, yng nghyswllt arwyddion, mae Safonau'r Gymraeg yn gosod dyletswydd ar sefydliadau cyhoeddus i sicrhau:

- bod testun ar arwyddion newydd neu arwyddion a gaiff eu hadnewyddu yn cael ei arddangos yn Gymraeg**
- nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar arwyddion**
- bod testun Cymraeg yn cael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf**
- bod testun Cymraeg ar arwyddion yn gywir o ran ystyr a mynegiant.**

What do the Welsh Language Standards say about signs?

The Welsh language standards place a requirement on public organisations to ensure:

- that text on new signs, or signs that are replaced, is displayed in Welsh**
- that the Welsh language is not treated less favourably than the English on signs**
- that Welsh is placed in such a position that it is likely to be read first**
- that the Welsh text on signs is accurate in terms of meaning and expression.**

**Bod yn greadigol
a pherchnogi
dwyieithrwydd:
astudiaethau achos**

**Being creative and
owning bilingualism:
case studies**

**Coginio Cartref
Home Baking**

**Blodau
Flowers**



Rydym wedi trafod egwyddorion arwyddion dwyieithog, a phrif bwrpas y ddogfen hon yw rhoi'r wybodaeth a'r technegau i chi osod arwyddion dwyieithog yn eich busnesau ar draws Cymru. Mae rhai busnesau wedi bod yn gwneud hyn ers blynyddoedd ac wedi cofleidio dwyieithrwydd fel rhan o'u brand.

Mae'r egwyddorion o gysondeb ac eglurder yr un mor bwysig, ond mae'r busnesau rydym am edrych arnyn nhw isod wedi mynd gam ymhellach a defnyddio arwyddion dwyieithog i ddathlu'r iaith Gymraeg yn eu siopau.

We have looked at the principles of bilingual design, and the main purpose of this document is to provide the information and techniques to aid you in placing bilingual signs in your businesses across Wales. Some businesses have been doing this for years and have embraced bilingualism as part of their brand.

The principles of consistency and clarity remain key, but these businesses go further, using bilingual signs to celebrate the Welsh language in their stores.



Co-op

“Rydym yn falch iawn o’n treftadaeth Gymreig, gyda hanes y Co-op yng Nghymru yn ymestyn nôl i ganol yr 1800au. Mae canolbwyntio ar y gymuned, cynwysoldeb a chydarddoldeb yn greiddiol i’r ffordd mae Co-op yn gweithio, rydym wedi ymrwymo i ddefnyddio arwyddion dwyieithog yn ein siopau yng Nghymru.”

Co-op Food

“We are very proud of our Welsh heritage, with the history of the Co-op in Wales dating back to the mid-1800’s. With a focus on community, inclusivity and diversity at the very core of the Co-op’s approach we are committed to using dual language signage in our Welsh stores.”



Lidl

“Rydym wedi integreiddio'r Gymraeg ar arwyddion sy'n dangos y ffordd, arwyddion gwybodaeth i gwsmeriaid a waliau croeso ac ymadael fel bod y rhain yn ddwyieithog. Rydym wedi blaenoriaethu manau sy'n cynorthwyo a gwella profiad y cwsmer yn ogystal â sicrhau cynwysoldeb ar ddechrau a diwedd eu taith yn y siop gyda ni.”

Lidl

“We have integrated the Welsh language into navigational signage, customer information signage and welcome and exit walls so that these are bilingual. We have prioritised touchpoints that aid and improve the customer experience as well as ensuring inclusivity at the start and end of their journey in store with us.”




Boots

“Mae Boots ar y stryd fawr mewn trefi ar draws Cymru, ac mae gwneud yn siŵr bod y Gymraeg i’w gweld yn ein siopau yn bwysig iawn i ni. Rydym yn falch o gael arwyddion dwyieithog clir ym mhob siop, ac mae hyn yn rhan bwysig o’n Cynnig Cymraeg i’n cwsmeriaid.”



Boots

“Boots is on high streets in towns across Wales and making sure that the Welsh language is visible in our stores is very important to us. We are proud to have clear bilingual signs in all our stores, and this is a key part of our Cynnig Cymraeg (Welsh Offer) to our customers.”



Rhoi popeth mewn lle

Putting everything in place

Lleol Local

Bwyd Poeth
Hot Food



Pryd i ystyried y Gymraeg?

Ar ddechrau'r broses. Y cynharaf y gallwch chi ystyried y Gymraeg wrth baratoi i osod arwyddion, y gorau. Dylech osod arwyddion dwyieithog o ddechrau unrhyw brosiect, o'r arwyddion 'hoardings' ar y safle wrth i'r gwaith fynd rhagddo, i'r arwyddion allanol a mewnol ar y safle gorffenedig. Bydd y cyhoedd yn dod i ddeall am eich busnes o'r arwyddion hysbysebu cychwynnol, felly gwnewch yn siŵr eu bod nhw'n ddwyieithog o'r dechrau.

When to consider Welsh?

From the very beginning. The earlier you can build Welsh into your plans when preparing to install signs, the better. You should install bilingual signs from the very outset, from the hoardings on site as building work is carried out, to the exterior and interior signage on the finished site. The public will learn about your business from the initial advertising, so make sure that they are bilingual from the outset.



Osgoi camgymeriadau

Mae'r Comisiynydd yn derbyn nifer o gwynion bob blwyddyn ynglŷn â safleoedd yng Nghymru ble mae arwyddion uniaith Saesneg wedi eu gosod ar siopau newydd, neu ble mae busnes wedi cael 'refit'. Yn aml, camgymeriad syml sydd ar fai, ond mae'n gamgymeriad costus i'r busnes. Mae'n arwain at sylw negyddol ar y cyfryngau cymdeithasol, ac yn lleol, ac yn golygu cost ychwanegol o orfod tynnu ac ailosod yr arwyddion.

Avoiding mistakes

The Commissioner receives a number of complaints each year about sites in Wales where English only signs have been placed on new shops, or where businesses have had a refit. A simple mistake is often to blame, but those mistakes can be costly to the business. They lead to negative attention on social media, and locally, and incur the additional cost of having to remove and refit the signs.



Sut allwch chi osgoi hyn?

Gwnewch yn siŵr fod trefniant mewn lle sy'n golygu mai dim ond arwyddion dwyieithog y mae modd eu harchebu ar gyfer eich safleoedd yng Nghymru. Os ydyn nhw'n cael eu harchebu o fan canolog, gwnewch yn siŵr eu bod nhw'n ymwybodol mai arwyddion dwyieithog sydd eu hangen yn eich canghennau yng Nghymru. Byddwch yn wyliadwrus gydag unrhyw safleoedd sydd ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr, a bod dim arwyddion Saesneg yn unig yn cael eu gosod yng Nghymru ar ddamwain. Mae gan Lidl, er enghraifft, dudalennau archebu gwahanol ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban, er mwyn lleihau'r risg o archebu'r arwyddion anghywir. Caiff y rhain wedyn eu gwirio gan reolwr y siop cyn eu gosod, er mwyn sicrhau am yr eildro eu bod nhw'n gywir.

Os ydych chi'n dibynnu ar archebu arwyddion o fan canolog, sicrhewch nad oes tebygolrwydd o wneud camgymeriad. Rhowch drefniant mewn lle er mwyn gwirio cyn bod yr arwyddion yn cael eu gosod. Bydd hyn yn sicr o osgoi costau ychwanegol ac embaras yn y pen draw.

How can you avoid this?

Make sure you have a process in place that ensures that only bilingual signs can be ordered in Wales. If they are ordered from a central location, ensure that everyone is aware that bilingual signs are required in stores in Wales. Be mindful of stores near the border, that no English only signs are placed in Wales by accident. Lidl has separate ordering pages for Wales, England and Scotland to reduce the risk of ordering the wrong signs. These are then checked by the store manager before installation, to provide a second level of certainty that they are correct.

If you are reliant on ordering signs from a central location, try and minimise the risk of making a mistake. Put a process in place to check that the signs are correct before they are installed. This will ensure you avoid additional costs and embarrassment in the long run.



Sicrhau cywirdeb arwyddion

Gwnewch yn siŵr fod eich arwyddion dwyieithog yn gywir. Mae sawl enghraifft i'w cael lle mae cwmni wedi cynnig cwrw am ddim⁵, neu wedi rhoi neges 'allan o'r swyddfa'⁶ y cyfieithydd ar arwydd ar ddamwain trwy argraffu a gosod arwyddion heb eu gwirio'n gyntaf. Sicrhewch fod gennych broses mewn lle i wirio'r arwyddion cyn eu gosod. Mae gwybodaeth am y cymorth sydd ar gael ar ddiwedd y ddogfen. Dyma rai pwyntiau i'w cadw mewn cof:

- Sicrhewch fod rheolwyr lleol a rhanbarthol yn ymwybodol o bolisi'r cwmni
- Peidiwch â'i gwneud hi'n bosibl archebu arwyddion uniaith Saesneg ar eich systemau yng Nghymru
- Rhowch broses prawf ddarllen mewn lle i wirio arwyddion cyn eu gosod
- Cynlluniwch eich arwyddion – mae angen amserlenni ar gyfer cyfieithu ac mae'n bwysig cofio hynny o'r dechrau

⁵ [Asda offers 'free alcohol' with incorrect Welsh translation | The Independent | The Independent](#)

⁶ [BBC News - E-mail error ends up on road sign](#)

Ensuring accuracy

Make sure that your bilingual signs are correct. Time and again companies have accidentally offered free beer⁵, or have published the 'out of office'⁶ message from the translator by printing and installing signs without checking them first. Ensure that you have a procedure in place to check the signs before they are installed. There is information about the support available at the end of the document. Here are some things to remember:

- Ensure that the local and regional managers are aware of your company policy
- Don't make it possible to order English only signs on your systems in Wales
- Put a proofing service in place to check the signs before installation
- Plan your signs – translation needs to be scheduled, and it's important to remember this from the start.

⁵ [Asda offers 'free alcohol' with incorrect Welsh translation | The Independent | The Independent](#)

⁶ [BBC News - E-mail error ends up on road sign](#)



Defnyddiwch gyfieithydd proffesiynol i gyfieithu'r arwyddion ar eich rhan. Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi cyd-destun i'r arwyddion er mwyn cael y cyfieithiad cywir. Yn yr un modd ag y mae gan eiriau ystyron amrywiol yn Saesneg, hefyd felly yn y Gymraeg. Er enghraifft, ar arwydd ar gyfer diodydd alcoholig, nid ysbrydion (ghosts) yw'r cyfieithiad cywir o 'spirits', ond gwirodydd (alcoholic spirits).

Use a professional translator to translate the signs. Make sure you provide context to the signs to ensure they are translated correctly. In the same way as words have multiple meanings in English, so to in Welsh. For example, on a sign for alcoholic drinks, be sure not to translate spirits as ysbrydion, the Welsh word for ghosts.



Gweithio gydag eraill: trydydd parti

Yn aml, mae trydydd parti yn rhan o'r broses o osod arwyddion a chael safle'n barod ar eich cyfer. Gall hyn gynyddu'r risg o gamgymeriadau os nad ydynt yn gwbl ymwybodol o'ch polisi ynghylch arwyddion dwyieithog. Sicrhewch fod pawb sy'n rhan o'r broses yn glir eich bod chi'n dymuno gosod arwyddion dwyieithog, a bod angen i'r arwyddion hynny gydymffurfio â'r egwyddorion yn y canllaw hwn.

Os ydych yn gweithredu system fasnachfaint, byddwch yn glir yn eich disgwyliadau o berchnogion y fasnachfaint a sicrhewch eu bod yn cydymffurfio â'ch dymuniadau i osod arwyddion dwyieithog.

Cofiwch, nid yw'n amlwg i'r cyhoedd fod trydydd parti yn rhan o'r darlun, felly mae camgymeriadau'n adlewyrchu'n wael ar eich delwedd chi fel cwmni.

Working with others: third parties

Third parties are often part of the installation process. This can increase the risk of mistakes if they are not aware of your policy on bilingual signs. Ensure that everyone who is part of the process is clear that you want to install bilingual signs, and that those signs need to conform to the principles outlined in this document.

If you operate a franchise system, be clear in your expectations on your franchise holders and ensure that they adhere to your wishes to install bilingual signs.

Remember, it is not clear to the public that a third party is involved, and therefore mistakes reflect badly on your image as a company.





Astudiaeth achos:

Yn 2022 derbyniodd y Comisiynydd gŵyn gan aelod o'r cyhoedd oedd yn siomedig fod arwyddion dwyieithog mewn safle gorsaf betrol archfarchnad leol wedi eu hadnewyddu a'u bod bellach yn arwyddion Saesneg yn unig. Wedi i ni gysylltu â'r archfarchnad, cawsom ar ddeall mai trydydd parti oedd yn gyfrifol am y safle. Ond dywedodd y trydydd parti mai'r archfarchnad oedd yn gyfrifol am archebu'r arwyddion ar eu rhan. Yn y pen draw, sicrhawyd bod yr arwyddion dwyieithog cywir yn cael eu gosod ar y safle, ond dyma enghraifft o beidio a chael polisiau clir mewn lle i osgoi'r fath ddryswch. Gyda phartion gwahanol â chyfrifoldebau gwahanol, roedd arwyddion Saesneg yn unig wedi eu gosod ar ddamwain, ac i'r cyhoedd roedd yn ymddangos mai'r archfarchnad eu hunain oedd wedi newid eu polisi am arwyddion dwyieithog.

Case study:

In 2022 the Commissioner received a complaint from a member of the public disappointed that signs had been renewed at a local supermarket petrol station. After contacting the supermarket it became clear that a third party was responsible for the site. But the third party said that the supermarket had responsibility for ordering the signs on their behalf. In the end, the correct bilingual signs were installed on the site, but this is an example of a failure to have clear policies in place to avoid such confusion. Due to different parties having responsibilities over the site the incorrect, English only, signs had been installed by accident. To the public, this looked like the supermarket themselves were changing their policy on bilingual signs.

Gweithio gydag eraill: y sector cyhoeddus

Os byddwch yn gweithio mewn partneriaeth, neu dan gytundeb gyda sefydliad sy'n gorfod cydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r Gymraeg, maent yn debygol o osod gofynion arnoch o ran y Gymraeg. Mae'n debygol y bydd hyn yn cynnwys defnyddio'r Gymraeg ar arwyddion. Sicrhewch eich bod yn trafod gyda'r sefydliad er mwyn bod yn glir ynghylch y gofynion a osodir arnoch. Mae rhagor o wybodaeth am ba sefydliadau sy'n gorfod cydymffurfio â'r safonau ar gael ar wefan y Comisiynydd.⁷

Working with others: the public sector

If you work in partnership, or under contract to an organisation who has to conform with the Welsh language standards, they are likely to place requirements on you regarding the use of Welsh. It is likely that this will include the use of Welsh on signage. Ensure that you discuss with the organisation so that you are clear of the exact requirements placed on you. There is more information about which organisations are required to conform to the Welsh language standards on the Commissioner's website.⁷



⁷ [Hysbysiadau cydymffurfio \(comisiynyddygyymraeg.cymru\)](http://comisiynyddygyymraeg.cymru)

⁷ [Hysbysiadau cydymffurfio \(comisiynyddygyymraeg.cymru\)](http://comisiynyddygyymraeg.cymru)

Ble i gael cymorth

Where to get more help

Byrbrydau **Snacks**

Caws
Cheese



Tîm Hybu Comisiynydd y Gymraeg

Mae'r Tîm Hybu yn arbenigo mewn cynorthwyo busnesau i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg. Gallwn gynnig cyngor ac arweiniad ar sut i blethu'r Gymraeg i'ch ffordd o weithio yng Nghymru.

Mae proses Cynllun Datblygu'r Gymraeg yn un hwylus a chynhwysfawr, ac yn rhan o'r broses gallwch geisio cymeradwyaeth swyddogol y Comisiynydd am eich Cynnig Cymraeg. Pwrpas y Cynnig Cymraeg yw ei gwneud hi'n glir i'r cyhoedd pa wasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg gennych chi.

Rydym hefyd yn gweithio gyda sefydliadau trydydd sector.

Gall ein gwasanaeth prawf ddarllen hyd at 1000 o eiriau am ddim fod yn ffordd hwylus o sicrhau cywirdeb eich arwyddion.

The Welsh Language Commissioner's Hybu Team

The Hybu team specialise in supporting businesses to increase their use of Welsh. We can provide advice and guidance on how to include the Welsh language in your activities in Wales.

The Welsh Language Development Plan process is simple and comprehensive, and you can seek official recognition from the Commissioner for your Cynnig Cymraeg (Welsh Offer). The purpose of the Cynnig Cymraeg is to make it clear to the public which services are available in Welsh.

We also work with third sector organisations.

Our free proof-reading service for up to 1000 words could be an effective way to ensure the accuracy of your signs.



Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

Defnyddiwch gyfieithydd proffesiynol i gyfieithu eich arwyddion. Mae cyfieithu yn sgil ac mae'n bwysig eich bod yn defnyddio cyfieithydd cymwys. Gallwch ddod o hyd i gyfieithydd addas ar www.cyfieithwyr.cymru

Sicrhewch fod y cyfieithydd yn deall eich steil a'r cywair neu 'tôn llais' sydd ei angen er mwyn cyfieithu'n gywir. Mae hefyd yn hanfodol eich bod yn rhoi cyd-destun neu gyfarwyddiadau ar gyfer yr arwydd e.e. lleoliad neu union ystyr os oes gan y gair fwy nag un ystyr er mwyn i'r cyfieithydd allu cynnig cyfieithiad cywir. Dylai unrhyw destun gael ei brawf ddarllen er mwyn sicrhau cywirdeb cyn gosod yr arwyddion.

Helo Blod

Mae gan Busnes Cymru wasanaeth cyfieithu rhad ac am ddim or enw Helo Blod. Trwy gofrestru, gallwch anfon 500 o eiriau i gael eu cyfieithu am ddim bob mis. Gallai hyn fod yn ffordd wych o sicrhau bod eich arwyddion yn ddwyieithog.

Association of Translators and Interpreters

Use a professional translator to translate your signs. Translation is a skill, and it's important to use a qualified individual. You can find someone suitable on www.cyfieithwyr.cymru

Ensure that the translator understands your house style and tone of voice to translate effectively. It is also crucial that you provide context, or directions for the signs e.g. location or exact meaning if a word can have multiple meanings so that they can translate correctly. Any work should be proof read to ensure accuracy before the signs are installed.

Helo Blod




Business Wales has a free translation service: Helo Blod. Registering with the service allows access to 500 words of free translation per month. This could be an effective way to ensure that your signs are bilingual.







Cysylltwch â'r Tîm Hybu i gael sgwrs am sut y gallwch chi ddefnyddio'r Gymraeg yn effeithiol a chreadigol o fewn eich busnes:

Get in touch with the Hybu Team to discuss how you can use Welsh effectively and creatively in your business:



-  hybu@cyg-wlc.cymru
-  [comisiynyddygybraeg.cymru/
busnesau-ac-elusennau](http://comisiynyddygybraeg.cymru/busnesau-ac-elusennau)
-  [welshlanguagecommissioner.wales/
businesses-and-charities](http://welshlanguagecommissioner.wales/businesses-and-charities)

-  [ComisiynyddyGymraeg](https://www.facebook.com/ComisiynyddyGymraeg)
-  [ComyGymraeg](https://twitter.com/ComyGymraeg)
-  [ComyGymraeg](https://www.instagram.com/ComyGymraeg)
-  [comisiynydd-y-gymraeg-
welsh-language-commissioner](https://www.linkedin.com/company/comisiynydd-y-gymraeg-welsh-language-commissioner)